Cwblhau brawddegau

Edrychwch ar y brawddegau isod. Mae gair ar goll ym mhob un.
Ticiwch y bocs wrth ochr y gair **gorau** i lenwi'r bwlch.
Does dim rhaid i chi ysgrifennu'r gair yn y bwlch.

1 Mae mynd ar y _____ yn y parc yn hwyl!

swigen ☐ siglodd ☐ siglo ☐ siglen ☐ sugno ☐

1 — 1m

2 Eisteddodd Dafydd ar ei _____ o flaen y ddesg.

sedd ☐ saith ☐ sêr ☐ saer ☐ soser ☐

2 — 1m

3 _____ Siôn ei stori i'w ffrindiau.

Darllenom ☐ Darllenodd ☐ Darllen ☐ Darllenaist ☐ Darllenais ☐

3 — 1m

4 Mae pedair _____ gan sgwâr.

cylch ☐ petryal ☐ rhif ☐ ongl ☐ coes ☐

4 — 1m

5 _____ yw'r Ddaear.

Plentyn ☐ Person ☐ Parot ☐ Planhigyn ☐ Planed ☐

5 — 1m

6 Doedd _____ y cyfrifiadur ddim yn gweithio.

llygoden ☐ cath ☐ llaw ☐ lleuad ☐ bochdew ☐

6 — 1m

7 Nofiodd _____ ar draws y llyn.

cwch ☐ hwyl ☐ pont ☐ hwyaden ☐ llong ☐

7 — 1m

8 _____ Gwen ei dagrau.

Sylwodd ☐ Syllodd ☐ Suddodd ☐ Syrthiodd ☐ Sychodd ☐

8 — 1m

STOPIWCH **Arhoswch am ganiatâd cyn dechrau gweithio ar dudalen 6.**

CYFANSWM — 8m

Cwblhau brawddegau

Edrychwch ar y brawddegau isod. Mae gair ar goll ym mhob un.
Ticiwch y bocs wrth ochr y gair **gorau** i lenwi'r bwlch.
Does dim rhaid i chi ysgrifennu'r gair yn y bwlch.

1 Mae mynd ar y _____ yn y parc yn hwyl!

swigen ☐ siglodd ☐ siglo ☐ siglen ☐ sugno ☐

1 — 1m

2 Eisteddodd Dafydd ar ei _____ o flaen y ddesg.

sedd ☐ saith ☐ sêr ☐ saer ☐ soser ☐

2 — 1m

3 _____ Siôn ei stori i'w ffrindiau.

Darllenom ☐ Darllenodd ☐ Darllen ☐ Darllenaist ☐ Darllenais ☐

3 — 1m

4 Mae pedair _____ gan sgwâr.

cylch ☐ petryal ☐ rhif ☐ ongl ☐ coes ☐

4 — 1m

5 _____ yw'r Ddaear.

Plentyn ☐ Person ☐ Parot ☐ Planhigyn ☐ Planed ☐

5 — 1m

6 Doedd _____ y cyfrifiadur ddim yn gweithio.

llygoden ☐ cath ☐ llaw ☐ lleuad ☐ bochdew ☐

6 — 1m

7 Nofiodd _____ ar draws y llyn.

cwch ☐ hwyl ☐ pont ☐ hwyaden ☐ llong ☐

7 — 1m

8 _____ Gwen ei dagrau.

Sylwodd ☐ Syllodd ☐ Suddodd ☐ Syrthiodd ☐ Sychodd ☐

8 — 1m

STOPIWCH **Arhoswch am ganiatâd cyn dechrau gweithio ar dudalen 6.**

CYFANSWM — 8m

Yn gyntaf, darllenwch bob darn darllen sydd mewn bocs ar dudalennau 8–13.
Wedyn, trowch yn ôl i'r dudalen hon a dechrau ateb y cwestiynau.

Lorïau ar draws y byd

Cymru

Bob dydd mae miloedd o lorïau ar ffyrdd Cymru'n cario llawer o bethau gwahanol, er enghraifft:

- bwydydd i'r siopau
- anifeiliaid i'r farchnad
- ceir newydd
- nwyddau adeiladu, e.e. concrit neu goed
- sbwriel o gartrefi pobl.


1 Beth mae'r lorïau'n ei gario?

Ticiwch **3**.

anifeiliaid	☐	bwydydd	☐
ffyrdd Cymru	☐	miloedd	☐
siopau	☐	sbwriel	☐

1
1m

Mae sawl rhan i lori fawr.



2 Yn ôl y llun, ble mae'r gyrrwr yn eistedd?

Ticiwch **1**.


y tu ôl i'r caban cysgu	☐
o dan y caban cysgu	☐
ar ben y caban cysgu	☐
o flaen y caban cysgu	☐

2
1m

trosodd

CYFANSWM
2m

Gwaith Nia yw gyrru lorïau mawr. Dyma hanes un bore cynnar iawn.



3:30 a.m. Codi o'r gwely. Mae pawb arall yn y tŷ yn cysgu'n sownd.

4:00 a.m. Gyrru'r lori wag o garej fawr y cwmni. Dydw i ddim yn cael parcio'r lori'r tu allan i'r tŷ dros nos.

5:00 a.m. Casglu'r trelar o'r ganolfan y tu allan i'r dref. Mae'r coed wedi'u pwyso a'u llwytho'n barod erbyn i mi gyrraedd. Felly, rydw i yn ôl ar y ffordd erbyn 5:30 a.m.

9:30 a.m. Stopio yn fy hoff gaffi wrth ochr y ffordd i gael brecwast.
Yn ôl y rheolau mae'n rhaid i bob gyrrwr gael egwyl o 45 munud ar ôl gyrru am bedair awr a hanner.

3 Faint o'r gloch cododd Nia?

Ticiwch **1**.

3:30 a.m. ☐
4:00 a.m. ☐
5:00 a.m. ☐
9:30 a.m. ☐
12:30 p.m. ☐

3
1m

4 Ble roedd Nia wedi cael ei brecwast?

Ticiwch **1**.

yn y lori ☐
yn y garej ☐
mewn caffi ☐
mewn caban ☐

4
1m



12:30 p.m. Cyrraedd Aberystwyth. Rhaid pwyso'r lori a'r llwyth ar ddechrau ac ar ddiwedd pob taith. Felly, byddaf yn gyrru'r lori dros y bont bwyso. Wedyn, bydd y coed yn cael eu dadlwytho.

Ar ôl cinio byddaf yn casglu llwyth arall – brics a sment y tro hwn – yn barod am y daith yn ôl. Dim gwaith yfory. Hwrê! Ond yr wythnos nesaf byddaf yn mynd draw i Ffrainc ac yn cysgu yn y lori am ddwy noson.

5 Meddyliwch am ddiwrnod gwaith Nia.
Rhowch y digwyddiadau hyn yn eu trefn, o 1 i 5.

Mae un wedi'i wneud yn barod i chi.

casglu'r trelar ☐
cyrraedd Aberystwyth ☐
stopio mewn caffi ☐
codi o'r gwely 1
gyrru dros y bont bwyso ☐

5
1m

6 Ticiwch **cywir** neu **anghywir** ar gyfer pob brawddeg.

	Cywir	Anghywir
Roedd yn rhaid i Nia godi'n gynnar iawn.		
Roedd Nia'n pwyso'r coed am 5:30 a.m.		
Roedd Nia wedi cael brecwast yn Aberystwyth.		
Bydd Nia'n gweithio yfory.		
Bydd Nia'n mynd i Ffrainc yr wythnos nesaf.		

6
2m

trosodd

CYFANSWM
5m

Awstralia

Gwlad fawr yw Awstralia. Gan fod llawer o ffyrdd gwastad, agored yno, mae'r lorïau'n anferth. Yn wir, dyma'r lorïau hiraf a thrymaf yn y byd i gyd. Mae'r un hiraf yn 1,474 metr o hyd. 'Trenau ffordd' yw un enw am y lorïau anferth hyn. Tybed pam?



7 Pa fath o lorïau sydd yn Awstralia?

Ticiwch **1**.

lliwgar ☐

gwastad ☐

agored ☐

anferth ☐

7
1m


8 **Dewiswch** a **chopïwch** y cwestiwn sy'n cael ei ofyn ar ddiwedd y darn uchod.

_____

8
1m

Pacistan

Yn y wlad hon, mae pobl yn peintio patrymau lliwgar a blodeuog ar eu lorïau. Mae gan bob ardal batrwm arbennig – streipiau, blodau, dotiau. Pan fydd gyrrwr lori'n teithio'n bell, bydd y patrwm yn ei atgoffa o'i gartref.





Cyn i lorïau gael eu defnyddio, dim ond camelod oedd yn cludo (cario) nwyddau ac roedd pobl Pacistan yn hoff iawn o addurno'r camelod. Dyma pam, efallai, maen nhw nawr yn addurno'r lorïau a'r camelod!

9 **Dewiswch** a **chopïwch** enw'r wlad lle mae lorïau lliwgar iawn.

_____

9
1m

10 Beth mae gyrrwyr Pacistan yn peintio ar eu lorïau?

Ticiwch **3**.

camelod ☐	streipiau ☐	cartrefi ☐
nwyddau ☐	blodau ☐	dotiau ☐

10
1m

11 Ticiwch bob rhes i ddangos ai yn **Awstralia** neu yn **Pacistan** y byddwch chi'n gweld y pethau hyn.

	Awstralia	Pacistan
ffyrdd gwastad ac agored		
camelod yn cario nwyddau		
y lorïau hiraf a thrymaf yn y byd		
patrwm arbennig i bob ardal		
lorïau o'r enw 'trenau ffordd'		

11
2m


CYFANSWM
6m

stopiwch

Yn gyntaf, darllenwch bob darn darllen sydd mewn bocs ar dudalennau 16–20.
Wedyn, trowch yn ôl i'r dudalen hon a dechrau ateb y cwestiynau.

Ar wib

Edrychodd Siw Mei ar y cloc ar wal yr ystafell ddosbarth. Dim ond pum munud cyn mynd adref. Teimlai'n gyffrous wrth feddwl am y daith yn ôl, oherwydd y sgwter newydd sbon gafodd ar ei phen-blwydd yr wythnos diwethaf! Roedd yn gallu mynd yn llawer cyflymach na'r hen un. Roedd y sgwter newydd yn mynd fel mellten a'r cloddiau'n gwibio heibio wrth fynd yn gynt na'r gwynt!



1 Pa amser o'r dydd oedd hi?

Ticiwch **1**.

- amser cinio ☐
- amser mynd adref ☐
- amser gwasanaeth ☐
- amser chwarae ☐

1
1m

Cofiodd am y daith i'r ysgol o'r tŷ y bore hwnnw gyda'i mam. Nid oedd yn bell a medrai gyrraedd yr ysgol mewn deg munud. Ond roedd angen pwyllo ar y sgwter weithiau – roedd y palmantau'n wahanol, rhai'n esmwyth ac eraill yn arw. Roedd y llwybrau'n gul neu'n llydan ac roedd pyllau dŵr annisgwyl. Roedd rhaid croesi dwy ffordd lle roedd y traffig yn drwm – yn gyntaf ar y groesfan sebra ac wedyn ar y groesfan pelican.



2 Ar ba fath o lwybrau roedd rhaid i Siw Mei deithio?

Ticiwch **2**.

- hir ☐
- troellog ☐
- cul ☐
- llydan ☐
- byr ☐

2
1m

3 Sut croesodd Siw Mei'r ddwy ffordd yn ddiogel?

Ticiwch **2**.

- gyda'r person lolipop ☐
- ar y groesfan sebra ☐
- dros y bont ☐
- ar y llwybr beicio ☐
- ar y groesfan pelican ☐

3
1m

trosodd

CYFANSWM
3m

Byddai Mam yn cwyno'n gyson bod Siw Mei'n mynd yn rhy gyflym.
"Arafa wnei di!" byddai'n pwffian, wrth drio cadw i fyny ar y palmant esmwyth, hir wrth y goleuadau.
"Aros amdana i, Siw Mei!" byddai'n gweiddi, a'i hwyneb yn goch, wrth i Siw Mei gyrraedd y botwm gwasgu ar y groesfan pelican. Roedd Siw Mei'n un dda am wrando ar Mam, er ei bod hi eisiau mynd yn gyflymach. Pan fyddai'r palmant yn glir, byddai'n mynd amdani – a'r olwynion arian yn fflachio yn yr haul! Erbyn iddyn nhw gyrraedd yr ysgol byddai Mam yn chwysu a'i hwyneb yn goch fel tomato!



4 Pam mae ebychnod (!) ar ddiwedd y frawddeg *"Aros amdana i, Siw Mei!"*?

Ticiwch **1**.

oherwydd bod Mam yn boeth ☐

oherwydd bod Mam yn sibrwd ☐

oherwydd bod Mam yn hapus ☐

oherwydd bod Mam yn gweiddi ☐

4
1m

5 Meddyliwch am daith Siw Mei i'r ysgol.
Ticiwch **cywir** neu **anghywir** ar gyfer pob brawddeg.


	Cywir	Anghywir
Roedd y daith o'r tŷ i'r ysgol yn bell.		
Roedd rhaid croesi dwy ffordd.		
Roedd Siw Mei eisiau teithio'n gyflym.		
Roedd Siw Mei'n gwrando ar ei mam.		
Roedd Mam yn oer erbyn iddyn nhw gyrraedd yr ysgol.		

5
2m

Am hanner awr wedi tri canodd cloch yr ysgol. Yna, cofiodd Siw Mei pwy fyddai wrth y giât heno. Bob dydd Mawrth roedd Taid* yn dod i gasglu Siw Mei achos bod ei mam yn gweithio'n hwyr.

O na, byddai Taid eisiau cerdded ling-di-long! Dychmygai Siw Mei ei hun yn llusgo adref fel malwoden a Taid yn ei holi'r holl ffordd yn ôl. Roedd Siw Mei'n caru Taid, ond roedd yn wir mwynhau rasio adre! Aeth i nôl ei sgwter yn ddigalon.

*Taid = Tadcu



6 Pryd roedd Mam yn gweithio'n hwyr?

Ticiwch **1**.

bob dydd ☐

bob nos ☐

bob dydd Mawrth ☐

bob penwythnos ☐

6
1m

7 **Dewiswch** a **chopïwch** y geiriau sy'n dangos bod Siw Mei'n ofni y byddai'r daith adref yn araf.

_____

trosodd

7
1m


CYFANSWM
5m

Ond y tu allan i'r ysgol gwelodd ryfeddod. Yno safai Taid! Roedd yn wên o glust i glust ac yn gwisgo siwt loncian newydd sbon a phâr o esgidiau rhedeg drud!

Chwarddodd Taid wrth weld wyneb syn Siw Mei....

"Gobeithio dy fod di'n ffit!" Gwenodd eto wrth droi i loncian.
"Dw i am gadw'n iach. Dw i'n mynd i redeg yr holl ffordd adref ar y llwybr beicio."

Disgleiriodd llygaid Siw Mei.
"Arafa Taid.... Aros amdana i!"



8 **Dewiswch** a **chopïwch 1** gair sy'n dangos bod esgidiau Taid wedi costio llawer o arian.

_____

8
1m

9 Roedd gwên fawr ar wyneb Taid.

Dewiswch a **chopïwch** y geiriau sy'n dangos hynny.

_____

9
1m

10 *Disgleiriodd llygaid Siw Mei.*

Pam?

Ticiwch **2**.

Roedd yr haul yn llygaid Siw Mei.	☐	Roedd Siw Mei'n gyffrous.	☐
Roedd Siw Mei'n hapus.	☐	Roedd llygaid Siw Mei ar gau.	☐
Roedd Siw Mei'n crïo.	☐	Roedd llygaid Siw Mei'n brifo.	☐

10
1m

11 Meddyliwch am **bob rhan** o'r stori.

Tynnwch **3** llinell i gysylltu'r isod.

fel mellten	yn araf
fel tomato	yn gyflym
fel malwoden	yn goch

11
1m

12 Ticiwch **cywir** neu **anghywir** ar gyfer pob brawddeg.

	Cywir	Anghywir
Mam oedd yn casglu Siw Mei o'r ysgol bob dydd.		
Canodd cloch yr ysgol am hanner awr wedi dau.		
Roedd Siw Mei'n hoff iawn o Taid.		
Roedd Taid eisiau rhedeg adref.		
Roedd Taid yn gwisgo siwt loncian.		

12
2m

Diwedd y prawf. Gwiriwch eich gwaith.

CYFANSWM
6m